Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

# CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

22 Tachwedd, 2024


TEITL: Diweddariad: Swyddogaethau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru – Trosglwyddo i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig

AWDUR: Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio a Phrif Weithredwr Dros Dro y CBC

Geraint Owen, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Cyngor Gwynedd


## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno diweddariad pellach ar gynnydd i sefydlu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC), gyda ffocws penodol ar ymgymryd â throsglwyddiad arfaethedig swyddogaethau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i'r CBC.

1.2. Ceisio cymeradwyaeth gan y CBC i ymestyn y trefniant i'r Cyfarwyddwr Portffolio ymgymryd â rôl y Prif Weithredwr Dros Dro am ddau ddiwrnod yr wythnos tan 31 Mawrth, 2025 neu'r dyddiad trosglwyddo, yn dibynnu p'un fydd gyntaf. Bydd yr holl gostau cyflogaeth a chostau cysylltiedig ar gyfer y trefniant hwn yn parhau i gael eu talu gan CBC y Gogledd.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. I dderbyn y diweddariad cynnydd ar y gwaith i sefydlu CBC y Gogledd, gan gynnwys trosglwyddo'r Cynllun Twf a symud ymlaen ar dasgau sy'n ofynnol i gyflawni swyddogaethau statudol y CBC.

2.2. Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Portffolio i gytuno ar raglen a dyddiad drosglwyddo ddiwygiedig gyda'r Awdurdodau Lleol a phartneriaid Addysg Uwch ac Addysg Bellach o fewn y dyddiad targed o 1 Ebrill, 2025.

2.3. Cymeradwyo estyniad o'r trefniant dros dro i Gyfarwyddwr Portffolio y Bwrdd Uchelgais Economaidd ymgymryd â rôl Prif Weithredwr y Cyd-Bwyllgor Corfforedig ar sail dros-dro am ddau ddiwrnod yr wythnos hyd at 31 Mawrth, 2025 neu'r dyddiad trosglwyddo, yn dibynnu p'un fydd gyntaf.

## 3. Y RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Ym mis Rhagfyr 2021/mis Ionawr 2022, cytunodd Cabinet a Phwyllgorau Gweithredol pob un o'r chwe Awdurdod Lleol a phartneriaeth ehangach y Bwrdd Uchelgais, mewn egwyddor, y dylid trosglwyddo swyddogaethau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (y Bwrdd Uchelgais) trwy gytundeb dirprwyo i'r CBC. Mae'r fframwaith statudol a sefydlu'r CBC yn gofyn am y ffocws a'r adnoddau sydd eu hangen i ddatblygu'r gwaith trosglwyddo. Mae angen cymeradwyaeth gan yr holl sefydliadau partner a Llywodraethau cyn y gellir cwblhau'r trosglwyddo.

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

3.2. Mae swyddogaethau a threfniant partneriaeth y Bwrdd Uchelgais wedi'u nodi yn GA2 ar hyn o bryd. Mae hyn hefyd yn cynnwys y trefniadau llywodraethu a'r trefniadau hirdymor ar gyfer cefnogi'r Cynllun Twf a'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn ariannol i gyflawni'r cynllun. Dan y cytundeb dirprwyo arfaethedig, byddai'r Cynllun Twf a'r trefniadau ariannol cysylltiedig yn trosglwyddo i'r CBC a byddai'n ymateb yn rhannol i'r pŵer a roddir i'r CBC i hyrwyddo lles economaidd rhanbarthol. Mae'r swyddogaeth Llesiant Economaidd hon yn cyd-fodoli â phwerau datblygu economaidd pob un o Gynghorau'r Gogledd. Bydd angen i bartneriaid rhanbarthol gytuno a chyd-ddatblygu sut bydd y swyddogaethau hyn yn gweithio'n rhanbarthol, fel rhan o sefydlu'r CBC. Mae angen cydnabod hefyd bod y penderfyniadau gwreiddiol mewn egwyddor i drosglwyddo'r Cynllun Twf wedi'u gwneud pan oedd cysyniad y CBC yn dal i gael ei ddatblygu. Felly, bydd yr union fodel ar gyfer y trefniadau trosglwyddo yn cael ei gytuno gyda phartneriaid fel rhan o'r camau nesaf.

3.3. Er mwyn gweithredu'r trosglwyddiad, mae yna faterion cyfreithiol allweddol sy'n cael eu datblygu:

i. Cytundeb gyda'r Llywodraethau ar drosglwyddo (novation) y Cynllun Twf drosodd i'r CBC a'r model ar gyfer cyflawni hyn. Mae'r egwyddor i drosglwyddo wedi derbyn cefnogaeth y llywodraeth.
ii. Penderfyniadau ffurfiol gan y partïon i Gytundeb Llywodraethu 2 (GA2) a'r CBC i gytuno i drosglwyddo swyddogaethau'r Cynllun Twf a swyddogaeth y Corff Atebol i'r CBC.
iii. Creu Cytundeb Cydweithio ac Ariannu rhwng partïon GA2 a'r Cyd-bwyllgor Corfforedig. Bydd y cytundeb yn olynydd i GA2 ac mewn sawl ffordd bydd yn adlewyrchu'r trefniadau presennol. Fodd bynnag, bydd statws corfforaethol gwahanol y CBC yn golygu y bydd angen mynd i'r afael ag agweddau ar y cytundeb mewn ffyrdd gwahanol. Mae'r rhain yn adlewyrchu'r ffaith bod GA2 wedi creu Cyd-bwyllgor o'r Cynghorau Cyfansoddol gyda phwerau dirprwyedig tra bod y CBC (er gwaethaf ei enw) yn gorfforaeth statudol. Y nod, fodd bynnag, yw adlewyrchu a cheisio ailadrodd y trefniadau partneriaeth o fewn y model trosglwyddo a darparu fframwaith cytundebol i sicrhau bod y Cynllun Twf yn cael ei gyflawni a pharhau ag ymrwymiadau ariannol y partneriaid i'r prosiect.

3.4. Gosodwyd 1af Tachwedd fel dyddiad targed dros dro ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau o'r Bwrdd Uchelgais i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd. Roedd y dyddiad hwn yn dibynnu ar dderbyn y cymeradwyaethau gofynnol ar gyfer trosglwyddo ac mae nifer o gamau a phenderfyniadau allweddol yn parhau heb eu gwneud. Mae’r rhain yn cynnwys:

- cytundeb ar y model llywodraethu ar gyfer gwneud penderfyniadau.
- cylchredeg a chytuno ar y GA3 drafft (olynydd GA2) i wneud trefniadau codio.
- dod i gytundeb novation ar gyfer y Cynllun Twf gyda Llywodraeth Cymru.
- cwblhau cytundeb partneriaeth GA3.

3.5. Felly, mae dyddiad trosglwyddo o 1af Tachwedd, 2024 yn anghyraeddadwy.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Mae sefydlu'r CBC yn ofyn cyfreithiol, ac mae'r amserlen i weithredu'r dyletswyddau statudol a bennir yn y ddeddfwriaeth, sef cynhyrchu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a Chynllun Datblygu Strategol Rhanbarthol yn pwyso.

- Mae gwaith i ddatblygu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol cysylltiedig yn mynd rhagddo'n dda a'r targed yw cyflwyno i'r Llywodraeth yn haf 2025.
- Sefydlwyd yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol a chynhaliodd ei gyfarfod cyntaf ar 1 Hydref, 2024. Nid yw'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Datblygu Strategol wedi datblygu gymaint oherwydd cyfyngiadau capasiti. Y cam cyntaf yw llunio Cytundeb Cyflawni ac mae adnoddau'n cael eu hadnabod ar hyn o bryd i gefnogi hyn.
- Adroddwyd am gynnydd wrth drosglwyddo'r Cynllun Twf i'r CBC yn eu cyfarfodydd ar 6 Medi ac 11 Hydref – gyda risgiau allweddol ar amserlenni wedi'u hamlygu yn ystod y cyfarfod olaf. Gofynnodd y CBC i gynllun cynhwysfawr a llinell amser i gael eu cyflwyno er eu hystyriaeth yn eu cyfarfod ar 22 Tachwedd (gweler 4.6).

4.2. Mae'r CBC hefyd yn ddarostyngedig i ddyletswyddau mwy cyffredinol awdurdodau lleol, megis y Ddeddf Cydraddoldeb, Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, safonau'r Gymraeg dan Fesur y Gymraeg 2011, a deddfwriaeth arall, yn yr un modd ag awdurdodau lleol. Er bod hyn yn angenrheidiol ar gyfer endid Llywodraeth Leol newydd, mae'n ychwanegu'n sylweddol at lwyth gwaith sefydlu'r CBC.

4.3. Nodwyd ym mis Mawrth bod angen gwaith sylweddol o hyd i gwblhau sefydlu'r CBC. Mae angen sylw a diwydrwydd manwl wrth ymgymryd â'r trosglwyddiad er mwyn sicrhau nad yw'n effeithio ar gyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru, gwaith y Bwrdd Uchelgais a'i swyddogion cefnogol.

4.4. Ym mis Mehefin 2024, cymeradwyodd y Bwrdd Uchelgais a’r CBC y trefniant i ryddhau'r Cyfarwyddwr Portffolio, Alwen Williams, i ymgymryd â rôl Prif Weithredwr Dros Dro y CBC am ddau ddiwrnod yr wythnos tan 31 Hydref, 2024. Roedd y trefniant estynedig hwn ar y sail y byddai ymgynghoriad ffurfiol TUPE gyda gweithwyr Swyddfa Rheoli Portffolio Uchelgais Gogledd Cymru yn cael ei gwblhau a byddai'r trosglwyddo a phenodi Alwen Williams fel Prif Weithredwr y CBC yn dechrau o 1af Tachwedd, 2024.

4.5. Hyd yn hyn, mae cynnydd wedi'i gyflawni drwy’r Prif Weithredwr rhan-amser dros dro, gyda Phrif Swyddog Cyllid a Swyddog Monitro Cyngor Gwynedd wedi'u penodi i ymgymryd â'u rolau statudol priodol ar ran y CBC. Mae gwasanaethau cyfreithiol ac ariannol yn ogystal â swyddogaethau cymorth ehangach fel AD, TG a Gwasanaethau Democratiaeth hefyd yn cael eu darparu gan Gyngor Gwynedd. Y bwriad yw i'r trefniadau hyn barhau i gefnogi'r broses drosglwyddo.

### Amserlen ddiwygiedig ar gyfer trosglwyddo'r Cynllun Twf

4.6. Mae opsiynau trosglwyddo diwygiedig yn cael eu hystyried a byddant yn anelu at sicrhau'r cymeradwyaethau gofynnol i drosglwyddo'r Cynllun Twf, ei gyllid a'r Swyddfa Rheoli Portffolio i'r CBC erbyn 1 Ebrill, 2025 fan bellaf. O ganlyniad, ceisir estyniad hefyd i ymestyn rôl y Prif Weithredwr dros dro. Cadarnhawyd parodrwydd y Bwrdd Uchelgais Economaidd i ryddhau’r Cyfarwyddwr Portffolio ar y sail hwn yn ei gyfarfod ar yr 8 o Dachwedd, 2024. Bydd yr holl gostau cyflogaeth, a chostau eraill cysylltiedig, yn parhau i gael eu talu gan CBC y Gogledd yn ystod y cyfnod hwn.

4.7. Er mwyn trosglwyddo swyddogaethau'r Bwrdd Uchelgais, gan gynnwys y Cynllun Twf a'r Swyddfa Rheoli Portffolio i'r CBC, mae sawl ffrwd waith penodol a rhyng-gysylltiedig wedi'u sefydlu ac mae pob un wedi cyfrannu ac ymrwymo i raglen waith i gyflawni trosglwyddo swyddogaethau'r Bwrdd Uchelgais i'r CBC. Mae Bwrdd Prosiect Gweithredu'r CBC yn cyfarfod yn wythnosol i oruchwylio'r ffrydiau gwaith a sicrhau bod cerrig milltir allweddol yn cael eu cyflawni gyda risgiau allweddol yn cael eu hadnabod a'u rheoli. Mae swyddogion o'r Swyddfa Rheoli Portffolio a Chyngor Gwynedd yn cael eu cynrychioli ar y bwrdd prosiect.

4.8. Mae adnoddau rheoli rhaglen gweithredu'r CBC wedi bod ar waith ers mis Ionawr 2024. I ddechrau, darparwyd hyn drwy secondiad gan Lywodraeth Cymru - trefniant a ddaeth i ben ym mis Mai 2024. Ym mis Gorffennaf 2024, ymunodd y contractwr David Hole â thîm y Swyddfa Rheoli Porffolio i ddarparu'r capasiti Rheoli Rhaglen. Mae'r cymorth hwn yn hanfodol i gefnogi'r Prif Weithredwr Dros Dro i fodloni disgwyliadau gweithredol a statudol ac i weithio ochr yn ochr â Swyddog Adran 151 a Swyddog Monitro'r CBC a chydweithwyr ehangach yn y gwasanaethau Cyfreithiol, Cyllid, Adnoddau Dynol a TG a Gwasanaethau Democratiaeth o Gyngor Gwynedd sy'n aelodau o fwrdd prosiect y CBC.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Bydd costau sy'n gysylltiedig â throsglwyddo swyddogaethau i'r CBC yn gysylltiedig yn bennaf â gwariant ar amser swyddogion, cyfreithiol ac ariannol. Bydd cyllid yn cael ei dynnu o gyllidebau presennol y Bwrdd Uchelgais a'r CBC. Bydd cymorth cyfreithiol, Adnoddau Dynol, Cyllid, TG a Gwasanaethau Democratiaeth yn cael ei ddarparu drwy adnoddau Cyngor Gwynedd.

## 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Mae'r adroddiad yn nodi ar lefel uchel yr hyn a gynigir.

6.2. Mae'r Cynllun Twf yn bartneriaeth ffurfiol rhwng Llywodraethau'r DU a Chymru a'r 6 awdurdod cyfansoddol. Mae'n seiliedig ar bortffolio ac mae cyllid yn cael ei dynnu i lawr drwy lythyr cyllido blynyddol ffurfiol sy'n gytundeb grant a wnaed gan yr awdurdod lletya ar ran deg partner GA2. Mae rhyddhau cyllid ar gyfer unrhyw gyfnod yn amodol ar berfformiad gweithredu'r Cynllun Twf a gall y Llywodraethau ei ddal yn ôl. Mae trosglwyddo swyddogaethau'r Cynllun Twf i'r CBC yn fater i'r Awdurdodau Lleol a bydd angen cytundeb rhwng yr holl bartïon i GA2. Bydd dyddiad trosglwyddo diwygiedig yn cael ei sefydlu mewn cytundeb â'r partneriaid hyn, ond bydd y Bwrdd yn derbyn adroddiadau ac yn cael ei ymgynghori ar y penderfyniadau allweddol.

6.3. Mae nifer o faterion llywodraethu a chyfreithiol y mae angen eu rheoli fel rhan o'r cyfnod pontio. Amlygir y rhain ym mharagraff 3.3 a 3.4.

---

## ATODIADAU:

Dim

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

"Rwyf wedi cyfrannu at y rhaglen hon a gallaf gadarnhau'r materion a nodir yn yr adroddiad a chrynodeb o'r Materion Cyfreithiol. Er bod cwblhau'r trosglwyddiad hwn cyn gynted â phosibl yn flaenoriaeth, mae'r un mor bwysig bod y broses yn cael ei chwblhau'n effeithiol er mwyn sicrhau proses ddi-dor sy'n galluogi cyflawni effeithlon a pharhaus o'r Cynllun Twf gyda'r partneriaid."

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Mae swyddogion o'r Gwasanaeth Cyllid yn parhau i ddarparu cymorth i hwyluso datblygiad pellach y Cyd-bwyllgor Corfforedig. Mae cyllidebau a gwariant y CBC a'r Cynllun Twf yn destun adolygiad rheolaidd ac rwy'n hyderus bod y trefniadau ariannol yn gadarn a byddant yn parhau felly beth bynnag fo'r dyddiad newydd fydd yn cael ei bennu ar gyfer y trosglwyddiad y Cynllun Twf i'r CBC."